**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf ARD/05457/16

Mike Hedges AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

16 Tachwedd 2016

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Tachwedd, i'r Ysgrifennydd Cabined dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynglŷn â Deiseb P-05-724 Hawliau i Ofal Iechyd Sylfaenol yn Gymraeg. Gofynnwyd i mi ymateb.

Rwy'n ymwybodol o'r ddeiseb yma gan iddi gael ei chyflwyno fel rhan o ymateb Cymdeithas yr Iaith i ymgynghoriad ar Reoliadau drafft sy'n pennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd. Ymysg materion eraill roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y safonau arfaethedig newydd ar gyfer gofal sylfaenol, i'w gosod ar y byrddau iechyd, mewn ymateb i gasgliad Comisiynydd y Gymraeg *'... rhaid i ddarparwyr gofal sylfaenol fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan yr un fframwaith statudol â'r sefydliadau iechyd a fu'n destun i'r ymchwiliad safonau hwn...'*

Nawr bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben byddaf yn ystyried yr holl ymatebion ynghyd â'r ddeiseb oddi wrth Gymdeithas yr Iaith cyn gosod Rheoliadau drafft o flaen y Cynulliad i'w hystyried. Mae sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn ganolog i'r sector iechyd yn heriol ond rwy'n ymroddedig i symud y broses ymlaen a sicrhau mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith o fewn y sector iechyd.

Cofion

Alun

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.